# Y Priordy, Llandochau
# Polisi Gosod a Gwerthu Tai'n Lleol

Nod polisi Gosod a Gwerthu Tai'n Lleol Llandochau yw sicrhau bod datblygiad newydd Cymdeithas Tai Unedig Cymru yn Y Priordy, Heol Lecwydd, yn gynaliadwy ac y bydd yn dod yn rhan o'r gymuned leol y dymuna trigolion aros ynddi ac y byddant yn dangos ymrwymiad i'r ardal y byddant yn dod yn drigolion ynddi. I gyflawni'r nod hwn, mae polisi gosodiadau ar gyfer y cynllun wedi'i gytuno mewn partneriaeth â Chyngor Cymuned Llandochau, Cymdeithas Tai Unedig Cymru a Chyngor Bro Morgannwg.

Mae'r elfen tai cymdeithasol yn y datblygiad hwn yn cynnwys y canlynol:

Rhent:
2 x fflat 1 ystafell wely
3 x tŷ 2 ystafell wely
2 x tŷ 3 ystafell wely

Perchentyaeth Cost Isel (PCI)
2 x tŷ 2 ystafell wely

Dylai pob achos o osod a gwerthu tai gydymffurfio â phrif egwyddorion y polisi gosod a gwerthu tai'n lleol ar gyfer Llandochau sef:

Rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr yn ôl y drefn ganlynol
H.y. Ystyried blaenoriaeth 1 yn y lle cyntaf ac os nad oes digon o ymgeiswyr yn bodloni'r flaenoriaeth honno yna ystyrir ymgeiswyr ar sail y blaenoriaethau sy'n weddill yn y drefn a roddir isod:-

1) Pobl sy'n byw yn ardal Cyngor Cymuned Llandochau ar hyn o bryd ac sydd wedi byw yn ardal Cyngor Cymuned Llandochau ers 5 mlynedd neu fwy **NEU** bobl sydd ag aelod o deulu agos yn byw yn ardal Cyngor Cymuned Llandochau ar hyn o bryd, gan gynnwys, ac yn gyfyngedig i, ŵr/gwraig, plant, wyrion, brodyr neu chwiorydd am 5 mlynedd neu fwy.

2) Pobl sy'n byw yn ardal Cyngor Cymuned Llandochau ar hyn o bryd ac sydd wedi byw yn ardal Cyngor Cymuned Llandochau ers 3-5 mlynedd.

3) Pobl sy'n byw yn ardal Cyngor Cymuned Llandochau ar hyn o bryd ac sydd wedi byw yn ardal Cyngor Cymuned Llandochau ers 12 mis-3 blynedd.

   Ar ôl ystyried y blaenoriaethau uchod, caiff eiddo eu dyrannu yn unol â'r polisi Homes4U presennol - drwy flaenoriaeth band a'r cyfnod amser y mae'r ymgeiswyr wedi bod ar gofrestr Homes4U.
   Mewn perthynas â'r eiddo perchentyaeth cost isel, bydd ymgeiswyr cymwys yn cael eu blaenoriaethu yn ôl pa mor hir y maent wedi cofrestru gyda Aspire2Own.

4) Oni lwyddir cael digon o ymgeiswyr sy'n cyd-fynd â Blaenoriaethau 1 i 3, yna rhoddir y flaenoriaeth nesaf i ymgeiswyr sydd ar hyn o bryd yn byw yn ardal Cyngor Tref Penarth, ardal Cyngor Cymuned Dinas Powys neu ardal Cyngor Cymuned Llanfihangel (nid mewn trefn benodol).
   Rhoddir mwy o flaenoriaeth i ymgeiswyr sy'n bodloni Blaenoriaeth (4) ac sydd hefyd â chysylltiad lleol ag ardal Cyngor Cymuned Llandochau – h.y. cysylltiadau teuluol ehangach, cysylltiadau cymunedol ac ati.

5) Os oes angen, gellir wedyn cynnig gosodiadau i'r ymgeiswyr hynny sy'n byw yn rhywle arall ym Mro Morgannwg.

Wrth osod tai yn Y Priordy, bydd Cymdeithas Tai Unedig Cymru a Homes4U yn darparu llety o faint sy'n bodloni anghenion yr aelwyd, yn unol â'r polisïau dyrannu presennol.

Nid yw unrhyw beth yn y polisi hwn yn atal aelodaeth newydd o Homes4U ac Aspire2Own.

I helpu sicrhau cymuned gynaliadwy, bydd Cymdeithas Tai Unedig Cymru yn cwblhau holiadur cyn tenantiaeth a gwiriad tenantiaeth gyda phob darpar denant a phrynwr, gan gynnwys y rheiny sy'n gwneud cais am eiddo Perchentyaeth Cost Isel, i sicrhau addasrwydd yr eiddo ac i gynnig cyngor a chymorth ar fforddiadwyedd.